



# Pecyn Cyfryngau Llwybr Arfordir Cymru

## Cyflwyniad

Croeso i Llwybr Arfordir Cymru – y llwybr arfordirol di-dor hiraf o gwmpas unrhyw wlad. Ar y tudalennau nesaf, cewch gymorth i ymdroelli ar hyd 870 milltir o dirwedd arfordirol odidog – o gyrion Caer yn y gogledd i Gas-gwent yn y de-ddwyrain.

Cewch grwydro o aber afon Dyfrdwy, ar hyd arfordir y gogledd a'i drefi glan môr hardd, dros afon Menai i Ynys Môn, ac o Lŷn i lawr trwy ehangder mawreddog Bae Ceredigion, trwy unig Barc Cenedlaethol arfordirol Prydain yn Sir Benfro, ar hyd milltiroedd o draethau euraid, o gwmpas Penrhyn Gŵyr a'i harddwch trawiadol, ar hyd glannau'r dŵr ym Mae Caerdydd a Chaerdydd, prifddinas Cymru, i dref farchnad Cas-gwent.

Mae'r pecyn hwn i'r wasg yn cynnwys y canlynol:

- **Gair am Llwybr Arfordir Cymru** – gwybodaeth am ddatblygiad y llwybr, y partneriaid a gwybodaeth gyffredinol.
- **Crwydro Llwybr Arfordir Cymru** – argymhellion am y pum tro byr a'r pum tro hir gorau ym mhob ardal

## Cysylltiadau

Os hoffech ragor o fanylion neu wybodaeth nad yw yn y pecyn hwn i'r wasg, cysylltwch â:

Cyfoeth Naturiol Cymru

- Bran Devey, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus, [bran.devey@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:bran.devey@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk), 02920 772403 neu 07747 767443 neu [wcpmedia@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:wcpmedia@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Llywodraeth Cymru – Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

- [DeshWebCorrespondence@Wales.GSI.gov.uk](mailto:DeshWebCorrespondence@Wales.GSI.gov.uk)
- Saesneg – 0300 060 3300 / 0845 010 3300
- Cymraeg – 0300 060 4400 / 0845 010 4400

Croeso Cymru

- Beverley Jenkins, Rheolwr y Cyfryngau a Hyrwyddo, [Beverley.jenkins2@wales.gsi.gov.uk](mailto:Beverley.jenkins2@wales.gsi.gov.uk), 029 2047 5212





# Gair am Lwybr Arfordir Cymru

## Gwybodaeth gyffredinol

Mae Llywyr Arfordir Cymru yn rhedeg ar hyd arfordir Cymru o'r naill ben i'r llall. Ar y ffordd, fe ddewch ar draws darnau newydd yn ogystal â rhai sydd wedi hen ennill eu plwyf, er enghraifft, Llywyr Arfordir Ynys Môn a Llywyr Arfordir Sir Benfro, sy'n un o'r Llywbrau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Er mwyn eich helpu i wybod y ffordd, rydym wedi creu arwyddion pwrpasol i nodi'r llwybr. Mae'r rhain i'w gweld ar hyd Llywyr Arfordir Cymru i gyd ac mewn rhai llefydd byddant wedi'u gosod gydag arwyddion eraill. Os cadwch at y nodwyr llwybr hyn, ddylech chi ddim crwydro'n rhy bell o'r llwybr.

## Darganfod mwy

Mae gwefan Llywyr Arfordir Cymru yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol a all helpu i'ch tywys at y llwybr, yn ogystal â chynnig syniadau ar gyfer teithiau cerdded gwych ac awgrymiadau ar gyfer y pethau y gallwch eu gwneud a'u gweld ar y ffordd.

Ymhellach, mae toreth o daflenni ar gael mewn Canolfannau Croeso a mannau dethol eraill yng Nghymru. Mae'r rhain yn crybwyll uchafbwyntiau a theithiau cerdded a argymhellir ym mhob un o'r wyth rhanbarth.

Fel arall, ymunwch â ni ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol i gael newyddion a straeon am arfordir Cymru.

- [Facebook](#)
- [Twitter](#)
- [Google +](#)
- [Pinterest](#)

## Hanes y Datblygiad

Ers 2007, bu Llywodraeth Cymru'n buddsoddi er mwyn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd fynd at arfordir Cymru drwy'r Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir (CAIP). Bydd yr 870 milltir o lwybr yr arfordir yn cysylltu â Llywyr Clawdd Offa, sy'n un o'r Llywbrau Cenedlaethol, gan greu llwybr cerdded di-dor, 1,030 milltir o hyd, o gwmpas Cymru gyfan.

Datblygwyd Llywyr Arfordir Cymru gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru, 16 o awdurdodau lleol a dau Barc Cenedlaethol. Yn ogystal â chael tua £2 filiwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yr arfordir, mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) wedi clustnodi bron i £4 miliwn dros bedair blynedd i gefnogi'r prosiect. Bwriedir parhau i wella ansawdd ac aliniad y llwybr yn ystod 2012 a 2013 er mwyn sicrhau bod y llwybr yn dilyn arfordir Cymru mor agos ag y bo hynny'n ddiogel ac yn ymarferol. Dros amser, disgwylir y bydd Llywyr Arfordir Cymru'n arwain at greu cylchdeithiau arfordirol wrth i gysylltiadau â threfi a phentrefi mewndirol gael eu gwella.

Seiliwyd y syniad ar ddymuniad i adeiladu ar lwyddiant economaidd Llywyr Arfordir Sir Benfro, sy'n un o 'Llywbrau Cenedlaethol' Cymru a Lloegr, a Llywyr Arfordirol Ynys Môn. Mae'r





ddau lwybr hyn yn cyfrannu'n helaeth at economi ymwelwyr Cymru. Er bod Llywyr yr Arfordir yn bwysig i economi Cymru, mae hefyd yn chwarae rhan bwysig drwy annog pobl leol ac ymwelwyr i ddarganfod a mwynhau'r awyr agored yng Nghymru, a'r manteision a ddaw yn sgil hyn i iechyd a lles pobl.

## Ein Partneriaid

Dyma bartneriaid swyddogol Llywyr Arfordir Cymru:

Llywodraeth Cymru  
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Cyngor Gwynedd  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri  
Cyngor Sir Powys  
Cyngor Sir Ceredigion  
Cyngor Sir Penfro  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
Dinas a Sir Abertawe  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Cyngor Bro Morgannwg  
Cyngor Caerdydd  
Cyngor Dinas Casnewydd  
Cyngor Sir Fynwy  
Y Cerddwyr

Diolch i'r holl dimau sydd wedi helpu i gyflawni'r prosiect hwn yn y maes a diolch am gymorth parhaus yr holl bartneriaid.

Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i holl berchnogion y tiroedd a'r gwirfoddolwyr ar hyd Llywyr Arfordir Cymru am eu cefnogaeth i'r prosiect. Ni fyddem wedi gallu datblygu Llywyr Arfordir Cymru heb eu cymorth nhw.

## Gwyliau cerdded

- Gŵyl Gerdded Ynys Môn: [www.angleseywalkingfestival.com](http://www.angleseywalkingfestival.com)
- Wythnos Gerdded Conwy: [www.conwy.gov.uk/index.asp?Language=2](http://www.conwy.gov.uk/index.asp?Language=2)
- Gŵyl Gerdded Prestatyn: [http://prestatynwalkingfestival.co.uk/cwm\\_index.php](http://prestatynwalkingfestival.co.uk/cwm_index.php)
- Gŵyl Gerdded Abermo: [www.barmouthwalkingfestival.co.uk](http://www.barmouthwalkingfestival.co.uk)
- Gŵyl Gerdded Llanelli: [www.llanelliramblers.org.uk](http://www.llanelliramblers.org.uk)
- Gŵyl Gerdded Gŵyr: [www.mumblesinfo.org.uk/gowerwalkingfestival](http://www.mumblesinfo.org.uk/gowerwalkingfestival)
- Gŵyl Gerdded Sir Fynwy: [www.walkinginmonmouthshire.org/](http://www.walkinginmonmouthshire.org/)





## Crwydro Llwybr Arfordir Cymru

Yma, cewch wybodaeth am rai o'r llefydd gorau i fynd am dro – hir neu fyr – ar Lwybr Arfordir Cymru. Dewiswyd y rhain gan eu bod yn llefydd da i weld byd natur neu bethau diddorol. Cliciwch ar yr ardaloedd isod i gael disgrifiadau byr a dolenni sy'n rhoi rhagor o wybodaeth.

**Arfordir y Gogledd ac Aber Afon Dyfrdwy  
Menai, Llŷn a Meirionnydd  
Sir Benfro  
Penrhyn Gŵyr a Bae Abertawe**

**Ynys Môn  
Ceredigion  
Sir Gaerfyrddin  
Arfordir y De ac Aber Afon Hafren**

Sylwer: un ffordd yn unig yw'r pellter, oni nodir yn wahanol. Pan ddangosir cludiant cyhoeddus, golyga hyn fod cysylltiad rhwng y man cychwyn a'r man gorffen (yn dibynnu ar yr amserlen). Rydym yn awgrymu eich bod yn defnyddio [www.traveline-cymru.info](http://www.traveline-cymru.info) i gynllunio eich taith.

### Arfordir y Gogledd ac Aber Afon Dyfrdwy

Mae arfordir gogledd Cymru'n cynnwys traethau euraid hyfryd, a threfi a phentrefi sydd â digon o atyniadau i deuluoedd. Mae llwybr y gogledd yn ymestyn am ryw 60 milltir, ac ym Mhrestatyn mae'n ymuno â Llwybr Clawdd Offa, sy'n un o 'Lwybrau Cenedlaethol' Cymru a Lloegr. Clawdd Offa yw'r heneb hiraf ym Mhrydain.

Llwybrau Copa'r Gogarth

1–1.5 milltir / 1.6 - 2.4 km

Mwynhewch y golygfeydd ardderchog o Ben y Gogarth dros dref hardd Llandudno ac ymlaen at Afon Menai ac Ynys Môn. Mae'r llwybrau'n serth mewn mannau ac os byddai'n well gennych weld y golygfeydd heb orfod cerdded i fyny, gallwch ddefnyddio gwasanaethau'r dramffordd neu'r ceir cebl i fynd i'r copa. Mae'r holl wahanol flodau sy'n tyfu ar Ben y Gogarth yn cynnal y cymylau o löynnod byw sydd i'w gweld yn yr haf.

Mynydd y Dref, Conwy

3 milltir / 4.8 km

Un o ddewisiadau Llwybr yr Arfordir yw troi i mewn i'r tir i archwilio'r mynydd i'r gorllewin i dref Conwy. Mae rhwydwaith da o lwybrau'n cynnig digon o gyfle i chi archwilio'r mynydd wrth eich pwysau. Mae'r bryn yn troi'n borffor yn yr haf dan garped o rug. Ac mae golygfeydd gwych o'r copa lle mae safle bryngaer o'r Oes Haearn.

Traeth Talacre i Brestatyn (drwy Dwyni Gronant)

4.5 milltir / 7 km

Archwiliwch y rhan hardd yma o'r arfordir sy'n cynnwys goleudy'r Parlwr Du. Byddwch yn teithio ar hyd traeth poblogaidd Talacre drwy gyfoeth y cynefinoedd yn y twyni cyn cyrraedd Prestatyn lle mae traethau rhyfeddol a holl bleserau traddodiadol byd glan y môr. (Bws)





## Y Rhyl i Draeth Pensarn

5 milltir / 8 km

Mwynhewch hwyl a sbri byd glan y môr yn nhref y Rhyl gyda'i thraethau tywodlyd sydd bron yn ddi-ben-draw, cyn mynd ymlaen ar hyd yr arfordir i Bensarn, ger Abergele. Byddwch yn teithio drwy Fae Cinnel sy'n fan poblogaidd i wneud chwaraeon dŵr. (Trên neu Fws)

## Bae Colwyn i Landudno ar hyd Trwyn y Fuwch

5.5 milltir / 9 km

Taith gerdded egnïol a phoblogaidd ar lannau'r môr sy'n cynnig cyfleoedd gwych yn Nhrwyn y Fuwch i weld bywyd gwyllt. Ewch ymlaen i Landudno i ddarganfod cyfaredau'r dref wyliau hardd yma o oes Fictoria. (Trên neu Fws)

## Aber Afon Dyfrdwy – Castell y Fflint i Abaty Dinas Basing

6 milltir / 10 km

Taith gerdded wych ar hyd aber Afon Dyfrdwy. Mae'r daith yn cychwyn ger Castell y Fflint, sef y castell cyntaf a adeiladwyd yng Nghymru ar ôl i'r Brenin Edward I oresgyn y wlad yn y drydedd ganrif ar ddeg, ac yn gorffen ger Abaty Dinas Basing, abaty o'r deuddegfed ganrif (tua hanner milltir i mewn i'r tir o Lwybr yr Arfordir ym Maes-glas). (Bws)

### Uchafbwynt:

**Aber Afon Dyfrdwy:** Dewch i ddarganfod cynefin bendigedig Afon Dyfrdwy. Mae'r gwlyptir pwysig yma'n lle da i weld adar hefyd.

**Castell a Thref Conwy:** Fel un o'r cestyll a adeiladwyd gan Edward I, brenin Lloegr, mae'r dref gaerog a'i chastell enwog yn un o Safleoedd Treftadaeth y Byd; mae llawer o bobl yn credu mai'r castell yma yw'r un gorau a godwyd gan Edward I.

**Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa:** O Brestatyn cymerwch drywydd byrrach i Gas-gwent ar hyd y llwybr 177 milltir yma. Mewn manau mae'r llwybr yn dilyn Clawdd Offa, sef clawdd hynafol o'r wythfed ganrif a adeiladwyd ar hyd y ffin.

**Ardaloedd gwyliau Gogledd Cymru:** Dewch â bwced a rhaw i fwynhau holl brofiadau trefi a phentrefi traddodiadol glan môr. Maen nhw'n addas i'r teulu ac mae mynediad ardderchog i gadeiriau gwthio a phobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.

## Ynys Môn

Mae digonedd o bethau i'w gweld ar Ynys Môn. Ceir daeareg eithriadol ddiddorol a thraethau hardd ar hyd yr arfordir gwych. Codwyd Pont Menai rhwng yr ynys a'r tir mawr gan Thomas Telford yn 1826.

## Pentref, aber, traeth a thwyni Aberffraw

Cylch 2.5 milltir / 3.75 km

Taith fer drwy bentref Aberffro ac ar hyd aber hyfryd Afon Ffraw a'r traeth, cyn troi'n ôl drwy'r twyni.



### Caergybi i Ynys Lawd

2.75 milltir / 4.25 km un ffordd

Dyma daith gerdded heriol braidd sy'n cychwyn ym Mharc Gwledig y Morglawdd yng Nghaergybi. Mae'r llwybr yn mynd dros y mynydd ac ar hyd yr arfordir i safle eiconig Ynys Lawd. Mae'n bosib cerdded yn ôl i'r parc ar hyd y llwybrau amlwg ar yr ochr arall i'r mynydd.

### Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwlllantysiliogogoch i Borthaethwy 3 milltir / 5 km

Defnyddiwch y daith hyfryd yma gyda'i golygfeydd gwych draw at y tir mawr fel cyfle i ymarfer dweud enw'r pentref enwog! Bydd y llwybr yn mynd o dan y ddwy bont – Pont Britannia a godwyd gan Stephenson yn 1850, a Phont y Borth, y bont grog enwog a godwyd gan Thomas Telford yn 1826. (Bws)

### Biwmares i Drwyn Penmon

4.5 milltir / 7.25 km

Beth am grwydro strydoedd Biwmares i weld yr adeiladau hardd o gyfnod Brenin George cyn mentro ar hyd yr arfordir i fwynhau'r golygfeydd o fynyddoedd y Carneddau'r ochr draw i Afon Menai? Byddwch yn gweld Ynys Seiriol yn Nhrwyn Penmon, cynefin sy'n cael ei ddiogelu ar sail y boblogaeth fawr o fulfrain (ond dim un pâl er gwaethaf ei enw Saesneg!) sydd yno.

### Moelfre i Ddulas (tafarn y Pilot Boat)

4.5 milltir / 7.25 km

Dyma lwybr sy'n cynnig golygfeydd ardderchog o'r ardal arfordirol. Mae'n golygu cerdded o bentref tlws Moelfre i draeth poblogaidd Traeth Llugwy a Thraeth yr Ora, sy'n cael llawer llai o ymwelwyr, cyn troi i mewn am y tir ar hyd aber Afon Dulas i dafarn y Pilot Boat Inn. Mae'r llwybr yn mynd heibio i'r gofeb i'r bobl a gollodd eu bywydau pan suddodd llongau'r Royal Charter yn 1859 a'r Hindlea yn 1959. (Bws)

### Porth Amlwch i Gemaes

8.25 milltir / 13.25km

Mae'r llwybr yma'n cychwyn ym mhorthladd hanesyddol a phrydferth Amlwch. Byddwch yn cerdded ymlaen at glogwyni caregog isel a baeau hyfryd Porth Llechog a Phorthwen, heibio i eglwys anghysbell Llanbadrig ac ymlaen i bentref arfordirol Cemaes. (Bws o ganol tref Amlwch i Gemaes, heblaw am ddydd Sul)

### Uchafbwynt:

**Castell Biwmares:** Mae llawer yn credu mai'r castell yma, un arall o gestyll niferus Edward 1, yw'r un mwyaf perffaith ym Mhrydain o safbwynt techneg codi cestyll.

**Trwyn y Gader:** Gyda'i golygfeydd tuag at Ynysoedd y Moelrhoniaid a thu hwnt, mae'r safle anghysbell a phrydferth yma'n bwysig o safbwynt daeareg.

**Goleudy Ynys Lawd:** Dysgwch am hanes pwysig yr ardal yn nhreftadaeth forwrol Cymru. Gallwch sefyll ar y clogwyni i wyllo llawer o wahanol adar môr.

**Ynys Llanddwyn a Chwningar Niwbwrch:** Dyma safle hardd i chi ei archwilio. Pan fydd y llanw'n isel, cerddwch allan i'r ynys i ddysgu am Dwynwen, nawddsant cariadon Cymru.



## Menai, Llŷn a Meirionnydd

Gyda thirwedd fawreddog Parc Cenedlaethol Eryri yn y cefndir, mae'n hawdd deall pam y mae pobl yn tyrru i'r ardal hon i gerdded. Fe ddowch ar draws pentrefi bach glan môr, aberoedd a milltiroedd o draethau tywodlyd. Mae cymaint i'w ddarganfod.

### Nefyn i Borth Dinllaen

2.75 milltir / 4.5km

Gan sefyll ar benrhyn creigiog Porth Dinllaen gallwch edmygu golygfeydd i'r dwyrain a'r gorllewin ar hyd arfordir gogleddol Pen Llŷn. Gall hwn fod yn gyfle da i chi weld morloi'n nofio'n agos at y lan.

### Abermaw i'r Friog

3.75 milltir / 6 km

Taith gerdded rwydd iawn yw hon ar draws aber Afon Mawddach, ac mae'n cynnig golygfeydd ardderchog i fyny'r aber hyd at fynydd mawreddog Cadair Idris. Byddai'r daith yn fwy hamddenol byth drwy ddal y trê'n yn ôl. (Trên)

### Cricieth i Borthmadog

6.5 milltir / 10.5 km

Dechreuwch eich taith yng Nghricieth lle gallwch archwilio'r castell rhyfeddol cyn cerdded i'r de ar hyd yr arfordir ysbennydd i gyfeiriad Porthmadog. Gallwch oedi yn ystod y daith ar draeth enwog a hardd Morfa Bychan. (Trên neu fws)

### Porth Oer (Porthor) i Aberdaron

9.25 milltir / 15 km

Wrth gerdded i gyfeiriad Aberdaron fe welwch Ynys Enlli, cyrchfan ar un adeg i bererinion. Yn ôl pob sôn, roedd tri ymweliad ag Enlli'n gyfwerth ag un â Rhufain. Fel yr oedd rhaglen y BBC, Coast, yn sôn, gallwch glywed y tywod ym Mhorth Oer yn chwibanu weithiau wrth i chi gerdded drosto!

### Aberdyfi i Fachynlleth

11 milltir / 17.7 km

Mae llwybr yr arfordir yn troi i mewn i'r tir yma ar hyd Afon Dyfi at y man croesi agosaf ym Machynlleth. Mae'r golygfeydd ardderchog o'r mynyddoedd yn dra gwahanol i'r rhai ar yr arfordir. (Trên neu Fws)

### Morfa Harlech a Morfa Dyffryn (rhwng Harlech a Thalybont)

12 milltir / 19 km

Dau draeth godidog yw'r rhain lle gallwch gerdded am filltiroedd, ac mae digon o gyfleoedd ar hyd y daith i brynu bwyd a diod! Gallwch gwtogi'r daith mewn sawl man drwy ddal trê'n ar reilffordd arfordirol y Cambrian sydd ag amryw o orsafoedd mewn manau cyfleus. (Trên neu Fws)

### Uchafbwynt:

**Cestyll Caernarfon, Criccieth a Harlech:** Roedd y cestyll yma, sydd wedi'u lleoli mewn manau godidog, yn rhan o ymgyrch Edward 1 i oresgyn gogledd Cymru yn y drydedd ganrif ar ddeg.

**Pen Llŷn:** Er ei bod yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, mae digon o le o hyd i archwilio'r dirwedd hardd a thrawiadol hon.



**Portmeirion:** Pentref anarferol a ddyluniwyd gan Syr Clough Williams-Ellis ar ôl cael ei ysbrydoli gan arddull ardal Môr y Canoldir. Ffilmwyd rhai o olygfeydd y gyfres deledu boblogaidd The Prisoner yma yn ystod 60au'r ganrif ddiwethaf.

**Aber Afon Mawddach:** Mae naws bron yn freuddwydiol i aber hardd yr afon, gyda'i golygfeydd ardderchog tuag at Gadair Idris.

## Ceredigion

O dwyni tywod Ynyslas yn y gogledd i hen dref farchnad Aberteifi yn y de, mae bae mawreddog Ceredigion yn lle da i gerddwyr weld dolffiniaid a llamhidyddion, morloi a llu o adar y môr. Ar hyd Arfordir Treftadaeth Ceredigion ceir trefi a phentrefi pert a thraethau trawiadol.

### Aberporth

0.6 milltir naill ffordd / 1 km

Darn o'r llwybr sydd wedi'i ddynodi'n bwrpasol ar gyfer pobl mewn cadeiriau olwyn. Mae'n rhedeg ar hyd ymyl ddwyreiniol Bae Aberporth lle mae golygfeydd ardderchog o arfordir Ceredigion o'r clogwyni. Mae Aberporth hefyd yn lle da i weld dolffiniaid. (Bws)

### Cwmtedu i Langrannog

4.75 milltir / 7.5 km

Yn ôl rhai, dyma'r rhan fwyaf trawiadol o Lwybr Arfordir Ceredigion. Mae'n rhan o'r Arfordir Treftadaeth ac yn cynnwys yr ynys enwog Ynys Lochtyn. Ar draeth hyfryd Llangrannog gallwch weld Carreg Bica - craig a oedd ar un adeg, yn ôl yr hanes, yn un o ddannedd cawr. (Bws - ar rai dyddiau'n unig)

### Aberporth i Mwnt

5 milltir / 8.25 km

Rhan anghysbell o Lwybr yr Arfordir yw hon, sy'n rhedeg ar hyd brigau clogwyni a llethrau arfordirol, ychydig yn is nag ymylon tir amaethyddol. Mae llonyddwch yr ardal anghysbell yma'n gwneud i rywun deimlo bod rhuthr bywyd yn bell, bell i ffwrdd. (Bws - ar rai dyddiau'n unig).

### Y Borth i Aberystwyth

6 milltir / 9.5 km

Dyma ddarn diddorol a heriol o'r Arfordir Treftadaeth ac mae angen cryn dipyn o ddringo mewn mannau. Wrth gerdded o orsaf i orsaf, gallwch ddod nôl ar y trênn os byddwch wedi blino. (Trên neu Fws)

### Aberaeron i'r Cei Newydd

6.25 milltir / 10 km

Mae'r llwybr yma, rhwng dau o brif drefi arfordirol Ceredigion, yn cynnig golygfeydd ardderchog o bennau'r clogwyni. Mae llawer o bobl yn dweud mai Aberaeron yw un o'r trefi harddaf yng Nghymru gyda'i sgwâr o adeiladau gwych sydd yn null cyfnod y Rhaglywiaeth. Y traeth yw'r hoff lwybr drwy Gei Newydd, ond efallai bydd rhaid defnyddio'r heol pan mae'r llanw'n uchel. (Bws)





Aberystwyth i Lanrhystud

10.5 milltir / 17 km

Gan nad oes pentrefi ar y ffordd a dim ond ychydig o lwybrau eraill sy'n ymuno, ychydig o bobl sy'n cerdded ar y rhan hon o Llwybr Arfordir Ceredigion. Er ei fod yn heriol, mae'r llwybr yn rhoi cryn foddhad. (Bws)

### Uchafbwynt:

**Craig-glais a Rheilffordd y Graig, Aberystwyth:** Cerddwch neu ewch yn Rheilffordd y Graig i ben Craig-glais lle cewch olygfeydd godidog, caffi a siambr dywyll (camera obscura) fwyaf y byd.

**Ynys Lochtyn:** Mae'n anodd mynd at yr ynys ei hun ond mae cyfle gwell i werthfawrogi ei harddwch a'i safle o Llwybr yr Arfordir.

**Eglwys a Thraeth Y Mwnt:** Ewch i chwilio am yr eglwys eiconig o'r Canol Oesoedd, Eglwys y Grog, a'r traeth hardd sydd gerllaw.

**Gwyllo dolffiniaid:** Mae'n bosib gweld dolffiniaid trwyn potel o unrhyw ran o'r arfordir, naill ai o'r llwybr ei hun neu drwy fynd ar daith ar un o'r badau pwrpasol.

## Sir Benfro

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r ynnysoedd sy'n llawn bywyd gwyllt yn denu llawer o bobl i Sir Benfro. Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro, sy'n rhan o'r Llwybr Cenedlaethol, yn eich arwain drwy rai o olygfeydd mwyaf godidog Prydain, gan gynnwys 58 o draethau, 14 harbwr a dinas leiaf y Deyrnas Unedig, Tyddewi.

Trefdraeth

amryw

Dewch i archwilio tref ganoloesol hardd Trefdraeth. Gan ei bod wedi'i lleoli ar aber Afon Nyfer, mae digon o lwybrau gwastad yma sy'n gwbl addas mewn manau i gadeiriau olwyn. Gallwch gerdded yn hamddenol a mwynhau gwyllo'r bywyd gwyllt. (Bws)

Abereiddi i'r Merllyn Glas

300 llath

300 llath – taith addas i ddefnyddwyr cadair olwyn sy'n arwain i'r Merllyn Glas – chwarel ddofn sydd wedi'i llenwi â dŵr – lle ceir golygfa drawiadol. Darganfod mwy am y daith gerdded yma: Abereiddi i'r Merllyn Glas.

Ceibwr i Bwll y Wrach

Llai na milltir / 1 km

'Slawer dydd, roedd bae Ceibwr yn borthladd prysur yn gwasanaethu Trewyddel. Mae Pwll y Wrach yn un o nodweddion daearyddol mwyaf nodedig y rhan hon o'r arfordir – ogof wedi dymchwel wrth i'r môr dreulio siâl a thywodfaen meddal ar hyd ffawtlin.

Y Parc Ceirw i Farloes

2 milltir / 3.5 milltir

Dyma gyfle i grwydro'r Parc Ceirw a mwynhau'r golygfeydd tua'r Swnd Fain (Jack Sound) ac Ynys Sgomer ac ymlaen ar hyd yr arfordir trawiadol. Eisteddwch a gwyliwch ddyfroedd gwyllt



y Swnd Fain yn gwibio heibio, yn y gobaith o weld huganod a llamhidyddion. Dyma le gwych ym mis Medi a mis Hydref i weld morloi bach ar y traethau islaw (ond cofiwch fod y clogwyni yma'n serth a bod angen gofal bob amser). Os ewch ymlaen ychydig yn bellach ar hyd y llwybr yma, byddwch yn cyrraedd traeth eithriadol o brydferth Marloes.

Dinbych-y-pysgod

4.6 milltir / 7 km

Tro o gwmpas y dref glan môr brysur hon a'r ardal wledig gerllaw. Gallwch edrych draw at Ynys Bŷr sy'n gartref i gymuned grefyddol ers y chweched ganrif.

De Aberllydan i Skrinkle Haven

11 milltir / 17.7 km

Mae'r llwybr trawiadol yma'n dangos yn glir pam mae llwybr yr arfordir yn haeddu statws Parc Cenedlaethol. Yma mae traeth Barafundle, sy'n perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (ac a ddewiswyd yn un o'r deg traeth gorau yn y byd) a'r Pyllau Liliau yn Bosherton. (Bws).

Porth Mawr i Solfach

13 milltir / 20.9 km

O dywod euraid y Porth Mawr mae'r llwybr yn mynd heibio Tyddewi - dinas leiaf Prydain - ac yn dod i ben ym mhentref pert Solfach. Mae llamhidyddion i'w gweld yn y dŵr rhwng y tir mawr ac Ynys Dewi felly mae'n werth cael seibiant ar y ffordd.

### Uchafbwynt:

**Ynysoedd oddi ar y lan:** Gallwch fynd i weld gwarchodfeydd natur a manau encilio crefyddol ar yr ynysoedd, sy'n enwog ar draws y byd. Mae palod ac adar drycin i'w gweld yn aml yn ystod yr haf.

**Penmaen Dewi:** Mae'r golygfeydd ardderchog a'r llond gwlad o flodau gwylt sy'n tyfu yno drwy gydol y gwanwyn a'r haf yn gwneud hwn yn safle delfrydol i'w archwilio.

**Capel Sant Gofan:** Ewch i weld y capel pitw bach a adeiladwyd yn y creigiau yn Bosherton.

**Archwilio pyllau yn y creigiau:** Archwiliwch y pethau rhyfedd a rhyfeddol sydd i'w gweld yn y pyllau yn y creigiau ar yr arfordir yma sydd dan warchodaeth (ac sy'n cynnwys unig Warchodfa Natur Forol Cymru).

## Sir Gaerfyrddin

Mae arfordir Bae Caerfyrddin yn un amrywiol a diddorol. Ceir yno lawer o wahanol gynefinoedd gan gynnwys corsydd dŵr croyw, morfeydd heli, twyni tywod, coedwigoedd pîn a thiroedd comin arfordirol – oll yn gartref i gant a mil o blanhigion a chreaduriaid. Yn y bae mae Parc Gwledig Pen-bre – 500 erw o goetir a pharcdir wedi'u tirlunio sy'n arwain i lawr at harbwr bychan Porth Tywyn.



### Llansteffan

1.5 milltir / 2.5 km

Llwybr sy'n cynnig golygfeydd ardderchog o Fae Caerfyrddin a'r môr y tu hwnt. Mae'n croesi brigau'r clogwyni sydd dan garped o goed a phrysgwydd. Mae llawer o adar môr yn treulio'r gaeaf yn y bae ei hun, sy'n ei wneud yn safle pwysig ac yn sail i'w ddynodi fel yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig gyntaf yn y Deyrnas Unedig.

### Talacharn (rhwng cartref Dylan Thomas a fferm Salt House)

1.75 milltir / 2.75 km

Oedwch yn Nhalacharn i archwilio'r pentref cyn dringo bryn serth Sant Ioan i weld golygfeydd da o'r ardal. Byddwch yn dod at gastell Talacharn a'r tŷ cychod enwog lle y cafodd Dylan Thomas, y bardd enwog, ei ysbrydoli.

### Porth Tywyn i Lanelli

4.25 milltir / 6.75 km

Mae'r arfordir ar hyd glan ogleddol aber Afon Llchwyr wedi cael ei drawsnewid yn gasgliad unigryw o atyniadau i dwristiaid, cynefinoedd i fywyd gwylt a chyfleusterau hamdden. Parc Arfordirol y Mileniwm yw'r enw ar yr ardal, ac mae'r llwybr yn addas hefyd i feicwyr a phobl mewn cadeiriau olwyn. (Trên a Bws)

### Glanyfferi i Gydweli

5.25 milltir / 8.5 km

Mae'r rhan yma o'r Llwybr yn croesi tir dymunol y cefn gwlad i mewn o'r môr, ond mae golygfeydd gwych oddi yno ar draws aberoedd tair afon a Phenrhyn Gŵyr. Y castell canoloesol mawreddog yw'r prif atyniad yng Nghydweli. (Trên a Bws)

### Amroth i Bentywyn

5.5 milltir / 9 km

Ychydig iawn o bobl sy'n gwybod am y rhan hyfryd yma o'r arfordir. Tirwedd o glogwyni syfrdanol sydd yno, ynghyd â thraethau tebyg iawn i'r rhai yn Sir Benfro. Mae gan Draeth Pentywyn hanes cyffrous o bobl yn ceisio torri'r record cyflymder yno. (Bws)

### Cydweli i Borth Tywyn

9.25 milltir / 14.75km

Llwybr drwy Goedwig Pen-bre, gwarchodfa natur yng ngofal y Comisiwn Coedwigaeth. Coed pinwydd Corsica yn bennaf sy'n tyfu yn nhywod y twyni, ond mae rhai coed collddail yn tyfu mewn mannau hefyd. Ymlaciwch ym Mharc Gwledig Pen-bre ac ewch am dro i draeth Cefn Sidan. (Trên a Bws)

### Uchafbwynt:

**Cestyll Talacharn, Llansteffan a Chydweli:** Tri adfail hudol mewn lleoliadau hyfryd sy'n cynnig golygfeydd o Fae Caerfyrddin ac aberoedd yr afonydd.

**Cartref Dylan Thomas yn Nhalacharn:** Archwiliwch gartref y Cymro enwog. Lleoliad trawiadol a roddodd gryn ysbrydoliaeth iddo.

**Parc Arfordirol y Mileniwm:** Llwybr pwrpasol i gerddwyr a beicwyr ar hyd aber Afon Llchwyr, gyda chanolfan i ymwelwyr yn Lanelli.





Canolfan Gwlyptiroedd Cenedlaethol Cymru: Dewch i ganolfan y WWT (yr ymddiriedolaeth dros wlyptiroedd ac adar dŵr) ger Llanelli i seiclo, cerdded neu ganwio hyd yn oed, ac i weld bywyd gwyllt ar ei orau.

## Penrhyn Gŵyr a Bae Abertawe

Gallwch fynd o un eithaf i'r llall ar y rhan hon o'r Llwybr – o ddinas brysur Abertawe i arfordir trawiadol Penrhyn Gŵyr a'i draethau euraid arobryn. Yn yr ardal hon ceir 10 gwarchodfa natur, 24 o warchodfeydd yr Ymddiriedolaeth Natur, 32 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a phum Ardal Cadwraeth Arbennig.

Port Einon i Oxwich 4.5 milltir / 7.25km

Bydd y llwybr yma'n mynd â chi drwy goetiroedd ac ar hyd clogwyni agored. Dau o uchafbwyntiau'r daith yw Castell Oxwich a godwyd yn yr 16eg ganrif ac Eglwys Illtyd Sant o'r 13eg ganrif. (Bws)

Oxwich i Glogwyni Pennard 5.25 milltir / 8.25 km

Tro eithaf hawdd ar hyd traethau tywodlyd agored sy'n cynnig golygfeydd gwych o Fae'r Tri Chlogwyn, lle eithriadol o hardd. Gallwch ddewis sgrialu i fyny rhai o'r creigiau mewn manau. (Bws)

Y Mwmbwls i Abertawe 5.75 milltir / 9.25 km

Wrth archwilio'r ardal, beth am brynu hufen iâ yn y Mwmbwls fel gwobr? Os bydd gorsaf y bad achub ar agor, mae'n werth mynd i mewn i ddysgu am waith pwysig gweithwyr dewr yr RNLI sydd wedi achub bywydau llawer o bobl ar y môr ym mhob rhan o Brydain. Gallwch fwynhau'r golygfeydd ar draws y bae i Drwyn y Mwmbwls wrth gerdded mewn i'r ddinas ar hyd promenâd enwog Abertawe (lle'r oedd y rheilffordd gyntaf yn y byd i gludo teithwyr). (Bws)

Llanmadog i Rosili 6.75 milltir / 10.75 km

Taith gerdded ar hyd ymyl gorllewinol y penrhyn, cyn mynd heibio i Fae Brychdwn, ynys Burry Holms a Bae Rhosili ar ei hyd. Os bydd y llanw'n caniatáu, gallwch ddewis cerdded ymhellach i drwyn y penrhyn ym Mhen Pyrod. (Bws ar y Sul yn unig).

Abaty Margam i Faglan 7 milltir / 11 km

I weld yr arfordir ar ei orau, mae'r llwybr hwn yn eich tywys ar hyd y clogwyni tal sy'n edrych dros Bort Talbot. Cewch olygfeydd gwych o Fôr Hafren a chyfle ardderchog i weld sut y mae diwydiant wedi ymgartrefu ar lan y môr. Mae olion diddorol i'w gweld ar y ffordd, gan gynnwys adfeilion Eglwys Fair. Darganfod mwy am y daith gerdded yma: Abaty Margam i Faglan.

Rhosili i Bort Einon 7.5 milltir / 11.75 km

Mae'r llwybr yma'n dilyn darn o'r arfordir lle mae cyfoeth o fywyd gwyllt mewn tirwedd amrywiol a thrawiadol. Mae'n mynd drwy dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n





anghysbell, garw a gwyllt mewn sawl man. Cafodd Bae Port Einon ei ddewis yn 2011 fel traeth gorau Prydain. (Bws)

### **Uchafbwynt:**

**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr:** Fel yr ardal gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael ei dynodi'n AHNE, mae Penrhyn Gŵyr yn boblogaidd gydag ymwelwyr a phobl yr ardal fel ei gilydd.

**Goleudy Trwyn Whiteford:** Mae'r tonnau'n torri'n gyson dros y goleudy haearn bwrw yma a adeiladwyd yn 1865. Mae'n un o'r unig ddau o'r math yma o oleudy sy'n dal i sefyll yn unrhyw le yn y byd, a'r unig un yn y Deyrnas Unedig.

**Pen Pyrod:** Yr enw Saesneg ar y darn yma o'r penrhyn yw Worm's Head, sy'n tarddu o'r ffaith fod y tir yn debyg i ddraig sy'n gorwedd. Mae'n safle eiconig, ac mae'r olygfa orau ohono o Fae Rhosili.

**Traeth Aberafan:** Mae dwy filltir o bromenâd gwastad ar lan y môr, ynghyd â thraeth tywodlyd eang a golygfeydd gwych dros Fae Abertawe tua Phenrhyn Gŵyr. Mae Traeth Aberafan yn lle delfrydol i wylïo'r haul yn machlud.

## **Arfordir y De ac Aber Afon Hafren**

Mae'r llwybr hwn ar hyd arfordir y de yn mynd â chi heibio i ddinasoedd prysur a phentrefi bywiog. Cewch olygfeydd gwych hefyd o aber afon Hafren sydd â'r amrediad llanw mwyaf ond un yn y byd, sef 49 troedfedd, a lle gwelir eger Hafren. Cewch gydgerdded â nifer fawr o adar dŵr a rhydyddion, yn enwedig yn y gaeaf. Mae'r gylfinir a'r cwtiad yn gyffredin ac, ar yr adegau prysuraf, mae'r aber yn un o'r ychydig aberoedd ym Mhrydain lle ceir dros 100,000 o rydyddion. Mae arfordir ardal Casnewydd i gyd yn rhan o Wastadeddau Gwent, sef morfa heli a hawliwyd o'r môr. Mae'r amddiffynfeydd yn gwarchod y tir a ffosydd artiffisial yn ei ddraenio.

**Cil-y-coed i Sudbrook a Blackrock**

3 milltir / 5 km

Mae archwilio'r rhan yma o'r arfordir yn cynnig cyfle i weld golygfeydd hyfryd o aber Afon Hafren. Mae safle hen groesfan i Loegr yn Blackrock, ynghyd â golygfeydd ardderchog a safle picnic hyfryd. (bws o Subrook - Cil-y-Coed)

**Canolfan Cynffig i Borthcawl**

4.5 milltir / 7km

Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig yn gartref i degeirianau gwyllt, pryfed a mathau eraill o fywyd gwyllt, ac mae'n lle gwych i gychwyn y daith gerdded bleserus yma sy'n cynnwys rhai o'r traethau gorau yng Nghymru ar gyfer syrffio a chwaraeon dŵr. Byddwch yn cerdded yn agos at Dŷ'r Sger (Sker House), y cartref hanesyddol sydd, yn ôl rhai, yn llawn bwganod ac a oedd yn sail i nofel R D Blackmore, The Maid of Sker. (Bws)

**Aberogwr i Nash Point**

6.2 milltir / 10 km

Mae'r llwybr yma'n dilyn Arfordir Treftadaeth Morgannwg i Nash Point. Dewch i archwilio'r arfordir ysblennydd a dramatig yma (a phiciwch draw i'r ganolfan ymwelwyr ym Mae



Dunraven i gael mwy o wybodaeth). Byddwch yn siŵr o ddod ar draws traethau trawiadol yn ystod y daith.

#### Llwybr Bae Caerdydd

6.2 milltir / 10 km

Cyfle i fwynhau treftadaeth gyfoethog Caerdydd a ddatblygodd yn sgil y dociau prysur a llwyddiannus. Ar y gylchdaith hon, fe welwch nodweddion hanesyddol fel yr Eglwys Norwyaidd (lle bedyddiwyd Roald Dahl) ac adeiladau eiconig fel Canolfan Mileniwm Cymru sy'n enwog drwy'r byd.

#### Porthcawl i Gastell Aberogwr

7 milltir / 11km

Llwybr sy'n cynnwys Traeth yr Afon a'r Warchodfa Natur Genedlaethol ym Merthyr Mawr, ac sy'n diweddu ger y castell a'r cerrig sarn yn Aberogwr. (Bws)

#### Cylchdaith Gwastadeddau Gwent

7.5 milltir / 12 km

Taith gyffrous, ar dir gwastad yn bennaf ar lwybrau â wyneb caled o gwmpas Gwarchodfa Gwlyptiroedd Casnewydd, sy'n ganolfan bwysig drwy'r wlad i fywyd gwyllt ac yn Warchodfa Natur Genedlaethol.

### **Uchafbwynt:**

**Arfordir Treftadaeth Morgannwg:** Dyfarnwyd statws Arfordir Treftadaeth i'r arfordir trawiadol yma yn 1972, ac mae'n gyfle i weld clogwyni mawreddog, traethau euraid a childraethau hardd.

**Bae Caerdydd:** Gan fod y llwybr yn mynd drwy galon ddiwylliannol fywiog prifddinas Cymru, manteisiwch ar y cyfle i'w harchwilio!

**Gwlyptiroedd Casnewydd ac Aber Afon Hafren:** Dyma gynefin pwysig i adar sy'n dod i'r wlad i dreulio'r gaeaf, ac mae'n gyfle gwych i weld ymwelwyr rheolaidd ac ambell un annisgwyl.

**Castell Cas-gwent:** Mae'r castell yma yn nhref Cas-gwent, ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, ac mae'r castell mewn cyflwr arbennig o dda. (Cas-gwent yw man cychwyn Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa hefyd.)

